# Rhwydwaith Ymgysylltu â Dioddefwyr-Goroeswyr Dyfed-Powys

## Cylch Gorchwyl

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English



2025

Heddlu Police DYFED POWYS

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner



# Cyflwyniad

Un o brif ddyletswyddau Comisiynydd Heddlu a Throseddu yw bod yn llais i ddioddefwyr, ac yn y rôl hon, rwy'n gweld fy hun fel 'Eiriolwr Dioddefwyr' lleol. Gwella'r gwasanaethau a ddarperir i ddioddefwyr yw un o'm prif flaenoriaethau. Dylai dioddefwyr fod wrth galon popeth y mae'r heddlu a gwasanaethau cyfiawnder troseddol lleol yn gwneud yn ein hardal. Rhaid deall hawliau dioddefwyr a'u cyflwyno'n llawn, gan sicrhau gwasanaethau effeithlon sydd wir yn canolbwyntio ar Dioddefwyr-Goroeswyr.

Sefydlwyd y Rhwydwaith Ymgysylltu â Dioddefwyr-Goroeswyr mewn partneriaeth ag asiantaethau cyfiawnder troseddol ym mis Hydref 2020. Mae aelodau'r Rhwydwaith yn fy nghynorthwyo i a phartneriaid wrth osod dioddefwyr-goroeswyr wrth galon y system cyfiawnder troseddol. Mae eu barn yn helpu i sicrhau bod llais y rhai sydd â phrofiadau byw yn dylanwadu ar ddatblygu gwasanaethau dioddefwyr a chraffu arnynt.

Gyda'n gilydd, mae fy mhartneriaid a minnau'n awyddus i wella profiadau dioddefwyr o'r system cyfiawnder troseddol. Yr ydym eisiau i ddioddefwyr-goroeswyr ein helpu i graffu ar y ffordd yr ydym yn cyflenwi gwasanaethau, i'n helpu i:

- Fod yn uchelgeisiol i barhau i wella; a
- Bod yn deg o ran y ffordd yr ydym yn trin pobl; a
- Chanolbwyntio ar anghenion dioddefwyr.

Er mwyn gwneud hyn, mae angen inni glywed profiadau a barn dioddefwyr. Anogir pob dioddefydd trosedd (fel y'i diffinnir o dan y Cod Dioddefwyr) ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn ogystal ag unigolion sydd wedi cefnogi rhywun sy'n agos atynt drwy wasanaethau dioddefwyr, i ymuno â'r Rhwydwaith a rhannu eu hadborth drwy gyfleoedd ymgysylltu amrywiol.

Gallai hyn gynnwys cwblhau arolwg, rhoi nodiadau ar ddogfen, polisi neu brosesau penodol, neu gymryd rhan mewn trafodaeth ar-lein neu wyneb yn wyneb. Does dim disgwyl i'r unigolion gymryd rhan ym mhob un cyfle; nhw sy'n dewis pryd maen nhw eisiau cymryd rhan.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Heddlu Police
DYFED POWYS



Mae fy swyddfa'n cydlynu'r Rhwydwaith ar ran fy mhartneriaid yn y maes cyfiawnder troseddol, ac rwy'n falch o'r gwelliannau yr ydym wedi'u gwneud hyd yn hyn o ran cyflenwi'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu.

Yr ydym yn parhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer y rhai sydd â phrofiad byw i gymryd rhan mewn trafodaethau lleol am flaenoriaethau cyfiawnder troseddol a chydlunio gwasanaethau. Rwy'n ddiolchgar i'r aelodau'r Rhwydwaith am eu hamser a'u hadborth amhrisiadwy ar amrediad o weithgareddau a phrosiectau gwahanol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae clywed gan ddioddefwyr-goroeswyr yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i'r cyhoedd. Darllenwch fy Adroddiadau Blynyddol i gael gwybod mwy.

Nod y llyfryn hwn yw sefydlu rôl y Rhwydwaith, ei aelodau a'm swyddfa. Os oes unrhyw beth sydd ddim yn cael ei drafod fan hyn, mae croeso ichi holi. Rwyf wir yn edrych ymlaen at barhau â gwaith pwysig y Rhwydwaith ochr yn ochr â chi.

Yr eiddoch yn gywir,

**Dafydd Llywelyn**
**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Heddlu Police
DYFED POWYS



# Beth ydym ni’n ei olygu wrth ‘dioddefydd’?

Anogir pob dioddefydd trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn ogystal ag unigolion sydd wedi cefnogi rhywun sy’n agos atynt drwy wasanaethau dioddefwyr, i ymuno â’r Rhwydwaith er mwyn rhannu eu hadborth.

O fewn y Cod Dioddefwyr, a ddiwygiwyd yn 2020, diffinnir ‘dioddefydd’ fel:



- **Rhywun sydd wedi dioddef niwed, yn cynnwys niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol neu golled economaidd a achoswyd yn uniongyrchol gan drosedd;**
- **Perthynas agos (neu rywun a enwebwyd i siarad ar ran y teulu) rhywun a fu farw o ganlyniad i drosedd.**



Yr ydym yn deall sut y gall niwed mawr gael ei ddioddef hefyd o ganlyniad i ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gan hynny, yr ydym yn gwahodd dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol i ymuno â’r Rhwydwaith hefyd.



Drwy ein hymgysylltiad hyd yn hyn, yr ydym wedi canfod y byddai’n well gan rai unigolion sydd wedi’u heffeithio gan drosedd pe bai geiriau eraill yn cael eu defnyddio yn lle ‘dioddefydd’, megis ‘goroeswr’ neu ‘parti a anafwyd’.

Wrth ymgysylltu’n uniongyrchol ag unigolion ar y Rhwydwaith, byddwn yn ceisio defnyddio’r derminoleg sydd orau ganddynt. Fodd bynnag, ar gyfer diben y llyfryn hwn – ein Cylch Gorchwyl, byddwn weithiau’n cyfeirio at aelodau’r Rhwydwaith fel ‘dioddefwyr-goroeswyr-goroeswyr’.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Heddlu Police
DYFED POWYS

# Beth yw'r Rhwydwaith Ymgysylltu â dioddefwyr-goroeswyr?

Mae holl aelodau'r Rhwydwaith, neu rywun sy'n agos atynt, wedi'u heffeithio gan drosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac mae pob aelod wedi cytuno i dderbyn gwybodaeth am gyfleoedd ymgysylltu sy'n ymwneud â gwella gwasanaethau dioddefwyr. Cofnodir manylion yr aelodau ar Gronfa Ddata Rhwydwaith. Dim ond y tîm o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sydd â mynediad ati.

Hyd at 2023, yr unig wybodaeth a oedd yn cael ei chadw ar y gronfa ddata ar gyfer yr aelodau oedd eu henwau a'r manylion cyswllt sydd orau ganddynt. Roedd hyn er mwyn sicrhau ein bod ni'n medru rhoi gwybodaeth am gyfleoedd ymgysylltu i alluogi'r aelodau i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â pha un ai a oeddent eisiau cymryd rhan yn y cyfleoedd hyn.

O fis Ionawr 2023, bydd y manylion canlynol hefyd yn cael eu cofnodi ar y Gronfa Ddata Rhwydwaith, gyda chydsyniad yr aelodau:

- **Enw;**
- **Manylion cyswllt – gan gynnwys rhif ffôn, cyfeiriad e-bost a chyfeiriad post;**
- **Y dull cyswllt sydd orau ganddynt;**
- **Dewis iaith;**
- **Ardal breswyl;**
- **Pa drosedd(au) mae aelod yn/wedi dioddef; a**
- **Gwybodaeth ddemograffeg, megis oed, rhywedd ac ethnigrwydd (nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb).**

Bydd dal data o'r fath yn caniatáu ymgysylltu mwy targedig o ran mathau o droseddau a lleoliad y gwasanaethau a dderbynnir. Bydd hefyd yn galluogi'r Comisiynydd a'i bartneriaid i asesu pa un ai a yw adborth o weithgarwch ymgysylltu'n gynrychioladol.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Heddlu Police
DYFED POWYS

# Pam fod y Rhwydwaith Ymgysylltu â dioddefwyr-goroeswyr yn bwysig?

Diben cyffredinol y Rhwydwaith yw sicrhau bod dioddefwyr-goroeswyr yn cael lleisio'u barn wrth graffu ar, a chyflenwi, gwasanaeth rhagorol ar gyfer dioddefwyr. Mae'n hollbwysig fod ymgysylltu drwy'r Rhwydwaith yn gwneud gwahaniaeth.

Amcanion cyffredinol ymgysylltu â dioddefwyr drwy'r Rhwydwaith yw:

- Darparu awgrymiadau a chyngor ar sut y gellir gwella gwasanaethau dioddefwyr ar draws y System Cyfiawnder Troseddol;
- Rhoi adborth i asiantaethau cyfiawnder troseddol ar bolisïau a gweithdrefnau;
- Rhoi cyngor ac arweiniad er mwyn sicrhau bod gwasanaethau dioddefwyr yn briodol ac yn bodloni anghenion dioddefwyr, ac nad oes unrhyw fylchau yn narpariaeth y gwasanaeth;
- Gwella hyder a ffydd dioddefwyr mewn asiantaethau cyfiawnder troseddol;
- Rhoi'r grym i ddioddefwyr-goroeswyr sbarduno gwelliant;
- Sicrhau bod dioddefwyr-goroeswyr yn medru gweld y gwahaniaeth mae eu cysylltiad â'r Rhwydwaith yn gwneud;
- Gwella bodlonrwydd ac unrhyw ddatgysylltu posibl oddi wrth y system cyfiawnder troseddol; a
- Gweithredu fel llais cynulliadol y dioddefydd, gan gydnabod bod profiad pob unigolyn yn unigryw.





Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Sut mae'r Rhwydwaith Ymgysylltu â Dioddefwyr-Goroeswyr yn gweithio?

- Cydlynir gweithgareddau ymgysylltu'r Rhwydwaith gan dîm y Comisiynydd, a cheir mewnbwn gan sefydliadau partner.
- Cynhelir gweithgareddau ymgysylltu bob chwarter, sef unwaith bob 3 mis, neu 4 gwaith mewn blwyddyn ariannol. Mae cymryd yr ymagwedd strwythuredig hon yn sicrhau bod partneriaid ac aelodau'r Rhwydwaith yn gwybod pryd y derbynnir y cais nesaf am adborth.
- Mae'n bosibl hefyd y bydd gweithgareddau ymgysylltu untro'n digwydd pan mae angen adborth ar frys neu y tu allan i'r ymgysylltu chwarterol.
- Nodir y pynciau a ystyrir drwy'r gweithgareddau ymgysylltu drwy drafodaethau gyda phartneriaid mewn fforymau a chyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar y dioddefydd, megis Is-grŵp dioddefwyr-goroeswyr a Thystion y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol.
- Enghraifft o ymgysylltu wedi'i dargedu, sy'n faenoriaeth i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Dyfed Powys, yw ymgysylltu â dioddefwyr a goroeswyr Trais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG), sy'n cynnwys Cam-drin Domestig (DA) a Throseddau Treisio a Rhywiol Difrifol (RASSO)
- Gellir cyflwyno awgrymiadau i'r Comisiynydd y tu allan i'r fforymau sefydledig hyn lle mae ffocws ar ddioddefwyr.
- Bydd adborth a materion allweddol sy'n cael eu codi gan ddarparwyr gwasanaethau dioddefwyr, megis gwasanaethau a ariennir gan y Comisiynydd, hefyd yn cael eu hystyried wrth nodi pynciau ymgysylltu, a hefyd materion a nodir drwy weithgarwch craffu a gyflawnir gan dîm y Comisiynydd.
- Os bydd nifer o bynciau ymgysylltu'n cael eu nodi a'u ceisio ar gyfer chwarter penodol, bydd SCHTh yn penderfynu pa weithgareddau y dylid eu blaenoriaethu.
- Gellid gweld pwnc ymgysylltu'n amhriodol os oes dewis arall sy'n bod eisoes sy'n fwy addas i'r partner ddilyn wrth gasglu adborth.
- Yr asiantaeth bartner a ofynnodd am y gweithgarwch ymgysylltu fydd yr arbenigwr yn ei maes a disgwylir iddi weithio ochr yn ochr â thîm y Comisiynydd er mwyn nodi amcanion y gweithgarwch. Bydd hefyd yn gweithio gyda thîm y Comisiynydd er mwyn cynllunio'r gweithgarwch ymgysylltu.
- Bydd tîm y Comisiynydd yn cynghori ynghylch y dulliau ymgysylltu gorau ac yn gweithio gyda'r partner i ddatblygu arfau ymgysylltu, megis cwestiynau arolwg neu bynciau trafod ar gyfer grwpiau ffocws. Bydd tîm y Comisiynydd yn cysylltu â'r dioddefwyr-goroeswyr ac yn rhoi gwybod iddynt am y gweithgarwch ymgysylltu.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Sut mae’r Rhwydwaith Ymgysylltu â Dioddefwyr-Goroeswyr yn gweithio?

Cydnabyddir na fydd pob dioddefydd eisiau, neu’n gallu, ymgysylltu â ni yn yr un ffordd.
Gan hynny, byddwn yn edrych ar gynnig gwahanol ddulliau ymgysylltu ar gyfer pob gweithgarwch. Gall y rhain gynnwys:

- Arolygon ar-lein
- Arolygon drwy’r post
- Arolygon wyneb yn wyneb
- Gweithdy neu grŵp ffocws ar-lein
- Gweithdy neu grŵp ffocws wyneb yn wyneb
- Trafodaeth dros y ffôn
- Rhannu dogfen neu bolisi drwy e-bost neu drwy’r post, â chais am adborth ar y ddogfen neu’r polisi dan sylw drwy e-bost, yn ysgrifenedig neu dros y ffôn; a
- Chyswllt drwy gyfryngau cymdeithasol.

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr, a bydd y dulliau a ddefnyddir yn cael eu haddasu ar gyfer yr aelod a’r sefyllfa.

- Bydd tîm y Comisiynydd yn arwain ar gynnal y gweithgareddau ymgysylltu.
- Lle bo angen, gofynnir i asiantaethau partner gymryd rhan yn y gweithgaredd er mwyn sicrhau bod arbenigwyr a’r bobl briodol yn bresennol, er mwyn rhoi’r wybodaeth a’r gefnogaeth sydd angen arnynt i ddioddefwyr-goroeswyr.
- Yn y lle cyntaf, y Comisiynydd fydd yn rhoi unrhyw arian sydd ei angen ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu yn unol â gwaith y Rhwydwaith. Fodd bynnag, efallai bydd angen i bartneriaid ddarparu arian neu adnoddau ychwanegol.
- Cesglir canlyniadau’r ymgysylltu gan dîm y Comisiynydd ac fe’u rhennir â’r partner perthnasol. Gall hyn gynnwys argymhellion o ganlyniad i’r canfyddiadau a’r adborth.
- Cyfrifoldeb yr asiantaeth bartner fydd ystyried canlyniadau’r ymgysylltu, adborth dioddefwyr-goroeswyr a’r argymhellion yn llawn.
- Yr ydym yn ymrwymo i ddiweddaru aelodau Rhwydwaith a’u cynnwys nhw drwy gydol y broses ymgysylltu. Disgwylir i bartneriaid sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i dîm y Comisiynydd er mwyn cyflawni’r ymrwymiad hwn.
- Bydd yr asiantaeth bartner yn rhoi diweddariadau ynghylch unrhyw gamau gweithredu a gymerir, argymhellion a weithredir, a gwelliannau a wneir i wasanaethau dioddefwyr o ganlyniad uniongyrchol i’r ymgysylltiad â dioddefwyr-goroeswyr.
- Rhoddir diweddariadau i’r Comisiynydd a phartneriaid yn Is-grŵp Dioddefwyr a Thystion y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.
- Rhoddir diweddariadau i’n haelodau Rhwydwaith hefyd.
- Bydd CHTh yn craffu ar waith y Rhwydwaith Ymgysylltu â Dioddefwyr-Goroeswyr, gan sicrhau bod lleisiau dioddefwyr-goroeswyr yn cael eu clywed.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Cyfnod Aelodaeth Adnewyddu & Cyfyngiadau Oedran


Rhaid i aelodau'r Rhwydwaith fod yn 18 oed neu'n hŷn. Gofynnir i rai dan 18 oed lenwi ffurflen ganiatâd rhiant/gwarcheidwad cyn dod yn aelod.

Mae aelodaeth yn y Rhwydwaith Ymgysylltu Dioddefwyr-Goroeswyr hwn yn ddilys am gyfnod o dair (3) blynedd o'r dyddiad ymuno. Ar ddiwedd y tymor hwn, byddwn yn cysylltu â chi i drafod eich profiad ac i gadarnhau a hoffech barhau â'ch aelodaeth am dymor arall.

Os ydych chi am roi'r gorau i'ch aelodaeth cyn diwedd y tymor tair blynedd, mae croeso i chi wneud hynny ar unrhyw adeg. Gofynnwn yn garedig i chi roi gwybod i ni os penderfynwch dynnu'n ôl o'r Rhwydwaith Ymgysylltu Dioddefwyr-Goroeswyr.

# Tîm y Comisiynydd

Dyma'r strwythur swyddfa diweddaraf. Efallai y byddwch yn clywed gan sawl aelod o dîm y Comisiynydd, ond y Tîm Ymgysylltu a Chyfathrebu fydd yn cysylltu â chi gan amlaf.




Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner



# Ein Haddewid i Chi

## Rydym yn addo....

- Byddwn yn rhoi'r holl fanylion am weithgarwch ymgysylltu ichi fel eich bod chi'n medru penderfynu pa un ai a ydych chi eisiau cymryd rhan ai peidio.
- Ni fyddwn yn rhoi unrhyw bwysau arnoch i rannu eich adborth a'ch barn gan y gwyddom y gall fod yn anodd siarad am eich profiadau.
- Byddwn yn gwrando ar eich barn.
- Byddwn yn eich parchu ac yn eich trin o ddifrif.
- Byddwn yn rhoi gwybod ichi sut yr ydym ni ac asiantaethau partner wedi ystyried eich adborth a'ch syniadau.
- Byddwn yn eich cyfeirio at y gwasanaethau cymorth perthnasol pan fydd arnoch eu hangen.

## Gofynnwn ichi…

- Rhoi gwybod inni os yw'ch manylion cyswllt wedi newid.
- Rhoi gwybod inni os nad ydych chi eisiau bod yn rhan o'r Rhwydwaith mwyach.
- Rhoi gwybod inni os ydych chi wedi'ch effeithio gan unrhyw un o'r pynciau y gofynnir ichi ystyried drwy ein hymgysylltiad â chi – gallwn eich cyfeirio at wasanaethau cymorth addas.
- Peidio â defnyddio'r Rhwydwaith fel ffordd o ddatblygu cwynion neu achosion unigol neu ofyn am ddiweddariad ynglŷn â nhw.
- Peidio ag adrodd am unrhyw faterion gweithredol wrthym. Bydd angen ichi gysylltu â Heddlu Dyfed-Powys. Galwch 999 mewn argyfwng ac 101 ar gyfer materion plismona difrys. Cewch gysylltu â nhw ar-lein hefyd: https://www.dyfed-powys.police.uk/cy-GB/riportio/riportio/
- Peidio â rhannu gwybodaeth bersonol neu sensitif yn ystod gweithgareddau ymgysylltu grŵp megis grwpiau ffocws neu drafodaethau ar-lein. Arhoswch yn ddiogel.
- Bod yn gwrtais – efallai na fydd pawb ohonom yn hoffi'r hyn sy'n cael ei ddweud, ond os yw'n cael ei ddweud heb anweddustra a rhegfeydd, ac nid yw'n fygythiol, yr ydym yn fodlon ar hynny.
- Bod yn gyfreithlon – Ni fyddwn yn dioddef sylwadau neu negeseuon gwahaniaethol, cas neu ddifrïol, a byddwn yn gweithredu os ydym yn ystyried bod rhywbeth yn anghyfreithlon.

# Cyfathrebu

Byddwn yn cysylltu â chi am gyfleoedd ymgysylltu drwy e-bost a dros y ffôn yn bennaf.

Yr ydym yn gweithio o ddydd Llun i ddydd Gwener o 9y.b. tan 5y.h., sy'n golygu na fyddwn ar gael o bosibl y tu allan i'r oriau hyn i ymateb i unrhyw ymholiadau neu bryderon a allai fod gennych.

Fel uchod, nid yw ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn cael eu monitro y tu allan i oriau swyddfa (9y.b. – 5y.h.) felly peidiwch â chysylltu â ni ar Twitter, Facebook neu Instagram mewn argyfwng.

**Os ydych angen siarad â rhywun ar frys neu mewn argyfwng, cysylltwch â:**

**Gwasanaeth Dioddefwyr Dyfed-Powys - 0300 123 2996**

**Dal i Godi - Gwasanaeth IDVA Dyfed-Powys - 01267221194**

**New Pathways – Gwasanaeth cymorth ar gyfer dioddefwyr cam-drin rhywiol - 01685 379 310**

**Gwasanaeth Eiriolaeth Stelcio Cenedlaethol Paladin - www.paladinservice.co.uk**

**Heddlu Dyfed-Powys – 999**

# Amhleidioldeb a chyfrinachedd

Bydd cyfrinachedd a diogelu data wrth galon pob cysylltiad a rhyngweithiad â dioddefwyr-goroeswyr, a bydd tîm y Comisiynydd yn sicrhau bod yr holl gytundebau, asesiadau a gwaith papur perthnasol yn eu lle; er enghraifft, Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data a Chytundebau Cyfrinachedd lle bo angen.

Os yw unigolion eisiau cyfrannu'n ddienw, cânt gyfle i wneud hynny.

# Dewch yn aelod o'r Rhwydwaith

Ar ôl darllen y ddogfen hon, os hoffech ddod yn aelod o'r Rhwydwaith Ymgysylltu â dioddefwyr-goroeswyr, rhowch wybod inni.

opcc.communication@dyfed-powys.police.uk


01267 226440

Cwblhewch ein ffurflen ar-lein fan hyn

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Heddlu Police
DYFED POWYS

# Y Côd Ymddygiad Dioddefwyr a'ch hawliau chi




Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Heddlu Police
DYFED POWYS